Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Cylch Meithrin Thomastown

**Canolfan Gymunedol Thomastown**
**Thomastown**
**Tonyrefail**
**Porth**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF39 8ED**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2010**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Pentref bach yw Thomastown yn agos at Tonyrefail i`r gogledd o Lantrisant. Lleolir Cylch Meithrin Thomastown yn y ganolfan gymunedol leol ac mae ar agor am 4 bore`r wythnos (nid Gwener) am 39 wythnos o`r flwyddyn. Sefydlwyd y Cylch rhyw 26 mlynedd yn ôl ac mae’r arweinydd presenol wedi bod yn gyfrifol am y Cylch ers hynny.

Daw`r plant sy`n mynychu`r Cylch o`r pentref yn bennaf – cymuned lofaol yn hanesyddol, ond yn awr yn Ardal Gymuned yn Gyntaf gydag ardaloedd o amddifadedd. Daw ychydig o blant o gartrefi lle mae`r Gymraeg yn brif iaith ond mae`r mwyafrif yn mynychu`r Cylch oherwydd bod neu rhieni eisiau iddynt dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae`r Cylch wedi`i gofrestru gan AGGCC ar gyfer i fyny at 24 o blant 2½ i 5 oed. Ar hyn o bryd, mae 9 ar y gofrestr, 2 yn dair oed ac nid oes un yn cael eu hariannu. Mae`r Cylch yn croesawu plant o gymunedau ethnig neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Daw`r plant i`r Cylch ychydig cyn 2½ oed ac ar y cyfan maent yn gadael am y cyfnod nesaf yn eu haddysg yn y mis Medi sy`n dilyn eu penblwydd yn dair oed.

Mae`r Cylch yn defnyddio`r prif neuadd yn y Ganolfan Gymunedol ac mae`r mynediad drwy gyntedd sydd hefyd yn fan aros i rieni. Mae hysbysfwrdd yn eu darparu â gwybodaeth ddiweddar. Mae toiledau a chyfleusterau hongian cotiau hefyd.

Mae`r neuadd yn ystafell fawr sy`n olau ac yn gynnes. Bob bore, oherwydd ymdrechion y staff, mae`r neuadd yn cael ei gosod ag amrywiaeth dda iawn o weithgareddau i`r plant. Rhaid canmol y staff ar eu dyfalbarhad gan fod rhaid dod lawr ag offer ac adnoddau o fannau storio i fyny`r grisiau. Erbyn i`r plant gyrraedd mae`r amgylchedd yn un croesawgar a deniadol ar gyfer y plant.

Ar bwys y neuadd mae cegin a adeiladwyd i`r pwrpas lle mae byrbrydau`r bore yn cael eu paratoi. Yng nghefn y Ganolfan Gymunedol, mae`r Cylch wedi cael gafael ar a chlirio darn o dir nad oedd yn cael ei ddefnyddio ac maent wedi ei droi`n ardal ddeniadol tu allan ar gyfer y plant. Mae ganddo nifer o nodweddion deniadol sy`n cyfoethogi`r dysgu i`r plant. Mae`n ddiogel gyda ffens o`i chwmpas gyda golygfa goedwigol.

Mae`r Cylch wedi cael eu harolygu yn ddiweddar gan AGGCC (Mai 2010) ac mae`r Cylch wedi mynd i`r afael â`r holl argymhellion bychan. Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Prif arfarniad

Rhagorol

- cynllunio i ddiwallu gofynion y Cyfnod Sylfaen;
- asesu`r plant a`r defnydd a wneir o`r asesu i gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol;
- effaith yr arweinyddiaeth wrth ddatblygu`r Cylch.

Da

- y ddarpariaeth i sicrhau gofal, cymorth, arweiniad a lles y plant;
- ethos a natur gynhwysol y Cylch;
- yr ymdrech tîm effeithiol;
- y bartneriaeth sydd wedi`i sefydlu â rhieni;
- mae`r Cylch wedi`i adnabod fel enghraifft o arfer dda;
- datblygiad o`r amgylchedd  awyr agored i gyfoethogi dysgu`r plant.

### Rhagolygon gwella

Rhagorol

- hanes y Cylch dros y blynyddoedd diwethaf mewn nodi meysydd ar gyfer eu datblygu ac ysgogi gwelliannau er lles y plant;
- yr arweinyddiaeth effeithiol.

Da

- y ffordd mae `r staff yn cyd-weithio fel tîm ac yn mynychu cyrsiau hyfforddi.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i’r lleoliad:

R1 cynnal y safonau cyfredol a gwella`r ddarpariaeth lle`n bosibl, fel datblygu medrau TG y plant.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn gwneud pob ymdrech i gynnal y safonau cyfredol ac ysgogi gwelliannau lle`n bosibl.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae`r cynllunio yn ymarfer cydweithrediadol sy`n cynnwys yr ymarferwyr allweddol gyda phob un ohonynt yn gwneud cyfraniad a chymryd cyfrifoldeb am agweddau o`r cwricwlwm. Mae`r cynllunio`n llwyddo i ennyn diddordeb yr holl blant gan ei fod yn diwallu eu hanghenion. Mae`r gwaith wedi`i wahaniaethu`n briodol ac yn heriol gan adeiladu`n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol. Dyma agweddau rhagorol o`r gwaith ac mae`r dogfennau cynllunio yn nodi amcanion dysgu, gweithgareddau dysgu sydd wedi`u gwahaniaethu gan gynnwys darpariaeth uwch, adnoddau ac arfarniadau manwl.

Mae`r berthynas o fewn y Cylch yn dda iawn ac mae pob plentyn yn cael ei barchu/ei pharchu pa beth bynnag bo`u cefndir neu anabledd. Mae awyrgylch o oddefgarwch a dealltwriaeth o`r angen i ofalu am eraill.

Mae`r synnwyr cyffredinol o les a chymorth yn annog plant i fod yn unigolion hyderus ac i ddatblygu eu hunan-barch sy`n eu galluogi i ddod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae archwiliad o waith plant dros y flwyddyn ddiwethaf yn nodi eu bod yn gwneud cynnydd da iawn ac yn caffael medrau sylfaenol yn gyflym iawn. Mae`r cynllunio yn sicrhau bod darpariaeth gyson ar gyfer medrau ar draws yr holl feysydd dysgu. Nodwedd nodedig a da yw`r ffordd mae`r staff yn defnyddio cyfleoedd i ddatblygu`r medrau yma yn ystod y chwarae a gweithgareddau eraill.
Mae`r holl blant yn parchu eu gilydd ac yn trin eu gilydd gydag ystyriaeth. Dyma nodwedd nodedig, yn enwedig gan fod y plant yma`n ifanc iawn yn ystod yr arolygiad – y mwyafrif helaeth heb gyrraedd eu penblwydd yn dair oed. Mae hunan hyder y plant a`u teimlad o les yn eu galluogi i fod yn ddysgwyr hyderus, annibynnol ond eto`n hapus i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp.

Mae`r holl blant yn mwynhau gweithgaredd corfforol ac yn dangos medrau corfforol da. Maent yn ymwybodol o`r gwahanol ffyrdd o symud gan gynnwys cerdded, neidio, sgipio a rhedeg ac yn dangos cydbwysedd da wrth gerdded ar fainc neu fynd ar gefn beiciau tair olwyn. Mae gan y rhan fwyaf o`r plant gyd-symud llaw llygad da. Datblygir medrau creadigol yn dda ac mae`r holl blant yn mwynhau cymysgu paent a defnyddio deunyddiau yn eu gwaith arddangos.

Mae gwaith rheolaidd tu allan ac ymweliadau â`r ardal yn datblygu dealltwriaeth dda iawn o newid tymhorol ac o`r gwaith o`u cwmpas. Mae ymweliadau â`r fferm yn datblygu dealltwriaeth y plant o`r angen i ofalu am bethau byw.

Mae`r cynllunio ar gyfer datblygu medrau`r plant, gan gynnwys eu medrau meddwl, yn systematig. Mae`r profiadau dysgu yn darparu`r plant â thasgau heriol sy`n cyfateb â`u gallu yn dda.

Mae darpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn cael ei chyfoethogi gan oedolion sy`n rhugl yn yr iaith ac sy`n cyfathrebu â`u gilydd yn y Gymraeg. Mae yna gyfran dda o blant sy`n dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg sy`n annog eraill i ddefnyddio`r iaith. Erbyn iddynt adael y Cylch, maent yn medru elwa o addysg yn yr iaith Gymraeg.

Mae traddodiadau a dathliadau Cymreig yn amlwg iawn yn y cwricwlwm sy`n sicrhau bod y plant yn caffael gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol dda o ddiwylliant Cymru. Ceir hefyd gyfleoedd da i`r plant ddysgu am ddiwylliannau eraill, fel dathlu Divali a`r Flwyddyn Newydd Tsieinëeg.

Ceir digon o gyfleoedd i`r plant ddysgu am dyfiant planhigion, fel yr amodau sydd angen ar gyfer eginiad hadau a`r hyn sydd angen ar blanhigion i dyfu`n llawn. Mae hyn yn helpu`r plant i ddysgu am ail-gylchu gwastraff ac am gynaliadwyedd.

**Addysgu: Rhagorol**

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda iawn o athroniaeth y Cyfnod Sylfaen a gwybodaeth a dealltwriaeth ddiweddar o ddatblygiad plant. Mae gwaith bob dydd y Cylch yn adlewyrchu`r egwyddorion hyn.

Nodwedd nodedig a da o`r addysgu yw`r gwaith gwahaniaethol sydd wedi`i ganolbwyntio`n dda ar gyfateb tasgau`n dda at allu`r plant a`u cyflawniad blaenorol, pe baent yn blant ag ADY neu`n fwy abl a dawnus. Gwna`r staff ddefnydd da iawn o holi i annog y plant i feddwl ac i ddatblygu eu medrau iaith. Mae`r holl staff yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio ac yn cyfrannu eu harbenigedd.

Mae`r oedolion yn gwybod pryd i ymyrryd ac fel canlyniad, mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u harwain gan ymarferwyr. Mae`r cynllunio hefyd yn nodi tasgau cyfoethogi lle mae`r oedolion yn arwain, ond nodwedd gref o`r Cylch yw bod yr achlysuron hyn yn cael eu cyflwyno`n dda, yn fyr, ac yn dal sylw`r plant yn llwyddiannus. Fel canlyniad, mae gan bob sesiwn gyflymdra da ac yn canolbwyntio`n dda ar gadw pob plentyn ynghlwm yn weithredol.

Nid yw ymddygiad yn bryder – mae`r staff yn mabwysiadu strategaethau ymddygiad cadarnhaol ac mae`r plant yn ymateb yn dda i ganmoliaeth. Yn ystod yr arolygiad nid oedd un achlysur lle oedd rhaid i`r staff ymyrryd oherwydd unrhyw ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Mae`r staff yn fodelau iaith dda ac yn sgwrsio â`u gilyddd a chyda`r plant yn Gymraeg. Rhaid eu cymeradwyo am ddysgu a defnyddio`r iaith yn bwrpasol yn y dosbarth.

Mae`r Cylch yn asesu`r plant yn rheolaidd ac yn gynhwysfawr gan gofnodi cyflawniadau`r plant. Mae`r arsylwadau yn wrthrychol ac yn cael eu dyddio gan ddarparu gwybodaeth am gynnydd plant. Mae gan ymarferwyr allweddol gyfrifoldeb am nifer fach o blant ac fel canlyniad, maent yn gwybod eu gallu a`u cyflawniad blaenorol yn dda iawn. Nodwedd rhagorol o`r asesu yw`r ffordd mae canlyniadau`r asesu yn cael eu defnyddio i gynllunio gweithgaredau sy`n cyfateb yn dda i anghenion plant ac i nodi`r camau nesaf yn eu dysgu. Dyma fantais y system o ymarferwyr allweddol yn cael cyfrifoldeb am nifer fach o blant.

Mewn trafodaeth, roedd rhieni yn adrodd bod ganddynt ddealltwriaeth dda o gynnydd eu plant drwy weld gwaith eu plant a thrwy trafodaethau anffurfiol gyda`r staff.

Mae`r Cylch yn cadw mewn cysylltiad agos â rhieni ac o bryd i`w gilydd yn darparu gwybodaeth ar sut y gallant gefnogi eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae hyrwyddiad y Cylch o iechyd a lles plant yn brif ffocws o`i waith. Caiff y plant ofal da iawn o`r amser maent yn cychwyn yn y Cylch ac mae`r staff yn ymwybodol iawn o`u mympwyon unigol. Teimlant yn ddiogel gan wybod at bwy i droi os oes angen cymorth. Drwy`r gweithgareddau dyddiol, mae`r Cylch yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch, parch a synnwyr o`r hyn sy`n gywir ac anghywir.

Mae`r oedolion yn trin pob plentyn â pharch sy`yn helpu i ddatblygu eu hunan-hyder sy`n eu galluogi i wneud dewisiadau, cymryd cyfrifoldeb a dangos blaengaredd. Maent yn hapus i gyd-chwarae ac i rannu offer ac adnoddau yn eu gwaith creadigol a gweithgareddau corfforol.

Mae gan y Cylch berthynas dda â gwasanaethau arbenigol a fe`u defnyddir yn ôl yr angen. Mae`r staff yn wyliadwrus i nodi materion o bryder ac yn gyflym i drefnu cefnogaeth yn ôl yr angen. Golyga hyn gefnogaeth 1:1 os oes angen. Mae`r rhieni yn cael eu cynnwys yn llawn mewn trafodaethau o`r fath.

Mae gan y Cylch bolisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu plant. Yr arweinydd yw`r person enwebedig gyda chyfrifoldeb am Amddiffyn Plant. Mae`r dirpwy hefyd wedi hyfforddi`n llawn ac mae pob un o`r staff yn ymwybodol o`u rolau. Mae`r gweithdrefnau yn adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru 2008. Mae`r holl staff wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant diweddar. Yr arweinydd hefyd yw`r Cyd-lynydd Anghenion Addysg Arbennig.

Mae`r plant sy`n mynychu`r Cylch yn cael eu cadw dan sylw a chysylltir ag asiantaethau allanol yn ôl yr angen. Pa beth bynnag yw ADY y plant, cânt fynediad llawn i bob maes o`r cwricwlwm. Drwyddi draw, mae`r Cylch yn sicrhau cymorth o ansawdd i bob plentyn pa beth bynnag bo`u cefndir ac anhawster.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae gan y Cylch ethos gref a chynhwysol sy`n darparu amgylchedd gwaith cefnogol i`r plant sy`n gynnes, yn gyfeillgar ac yn ddigynnwrf. Pa beth bynnag bo`u cefndir, mae`r plant yn rhan o deulu integredig y Cylch.

Mae`r holl blant yn dangos graddfa uchel o oddefgarwch ac yn dangos agweddau da tuag at eu gilydd, at oedolion ac at ymwelwyr. Mae`r Cylch yn rhydd o unrhyw ffurf o ymddygiad gormesol, aflonyddwch neu anffafriaeth. Caiff y plant sydd ag anableddau eu cynnwys yn llawn a chânt eu cefnogi`n dda iawn.

Mae gan y Cylch ddigonedd o staff sy`n ymroddedig a phrofiadol iawn a chanddynt gymwysterau da. Yn ystod yr arolygiad, roedd myfyrwyr yn bresennol a oedd yn ymgymryd â`u hyfforddiant.

Er ei fod yn waith beichus i osod a storio offer ac adnoddau ar gyfer pob sesiwn, mae`n cael ei wneud mewn da bryd cyn i`r plant gyrraedd. Rhaid cymeradwyo`r staff am eu dyfalbarhad sy`n adlewyrchu`n gadarnhaol ar gyflwaniad y plant.

Mae`r adnoddau yn cyfateb yn dda i ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae`r ystafelloedd yn briodol ac fe`u defnyddir yn effeithiol.

Cyfleuster rhagorol ac ardderchog yw`r ardal tu allan sydd wedi`i datblygu gan y Cylch. Nodwyd hyn yn 2008 yn y cynllun datblygu fel blaenoriaeth ac fel canlyniad, roedd sbwriel a drain yn yr ardal tu ôl i`r Cylch wedi`u clirio. Gyda chymorth lleol a chymorth rhieni, mae`r ardal wedi`i datblygu yn awr i fod yn ardal amgaëdig sydd ag adnoddau da ac sy`n darparu`r plant ag amrywiaeth dda o brofiadau o egino hadau i resi o glychau gwynt.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Nodwedd nodedig a rhagorol o`r Cylch yw`r ffordd mae`r staff yn gweithio fel tîm o dan arweinyddiaeth yr arweinydd. Mae cyfraniad yr arweinydd yn sylfaenol i waith y Cylch ac yn sicrhau safonau uchel. Mae`r gwaith beichus o osod yr adnoddau a`r offer yn cael ei wneud yn drefnus ac mae amrywiaeth dda o weithgareddau ar gael i`r plant erbyn iddynt gyrraedd.

Mae synnwyr o bwrpas yn treiddio trwy`r Cylch ac mae pob aelod o`r tîm yn ymgymryd â`i rôl yn effeithiol iawn. Mae hyn yn cynnal safonau uchel ond nid yw`r tîm yn hunanfodlon ac yn chwilio`n gyson am ffyrdd o wella a hyrwyddo gwelliannau.

Nodwedd dda a nodedig o`r tîm yw`r gwerthoedd maent yn eu rhannu sy`n seiliedig ar roi`r ddarpariaeth orau i`r plant. Mae holl aelodau`r tîm yn cyfrannu at gynllunio`r cwricwlwm ac yn cymryd cyfrifoldeb am agweddau penodol o`r gwaith.

Dros y blynyddoedd, mae`r holl staff wedi cymryd mantais o`r cyrsiau hyfforddi niferus ac mae`r rhain wedi ychwanegu`n effeithiol iawn at y cwricwlwm a phroffesiyonoldeb y staff – a`r canlyniad yw disgwyliadau a safonau uchel.

Nodwedd arbennig o dda o arddull arweinyddiaeth yr arweinydd yw ei phresenoldeb tawel a`u medrau trefnu rhagorol sy`n eu galluogi i gymryd presenoldeb tawel a goruchwyliol. Mae hyn yn sylfaenol i gynnal efffeithiolrwydd y Cylch. Mae medrau

rheolaeth a gweinyddol yr arweinydd wedi`u cydnabod yn lleol. Mae cysylltiadau effeithiol gyda`r rhieni yn bodoli sy`n sicrhau eu cefnogaeth ar gyfer addysg eu plant.

Mae`r Cylch wedi cymryd ystyriaeth o ddeddfwraieth ac arweiniad perthnasol ac wedi addasu polisïau Mudiad Ysgolion Meithrin lle bod angen. Mae`n cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol. Mae`r Cylch yn gweithio`n agos â phwyllgor Neuadd y Gymuned – mae presenoldeb arweinydd y Cylch ar y pwyllgor hwn yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio`n agos â`r Cylch. Hefyd, mae`r Cylch wedi ymateb yn gadarnhaol i fentrau cendlaethol fel datblygu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd:  Rhagorol**

Mae`r ddogfen hunanarfarnu yn fanwl ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae`n cynnwys pob maes dysgu a`r ddarpariaeth ac yn cysylltu`n dda â chynllunio datblygu`r lleoliad. Mae`r dogfennau cynllunio datblygol yn dangos yn glir y blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer eu datblygu dros y 4 blynedd diwethaf, y staff sy`n cael eu cynnwys, y meini prawf llwyddiant, goblygiadau ariannol ac arfarniad ddiwedd blwyddyn. Mae adolygiad o gynlluniau datblygu blaenorol yn dangos bod y Cylch wedi cyflawni`r holl dargeadu ar gyfer gwella. Rhaid nodi`n arbennig y datblygiad o`r ardal chwarae awyr agored sy`n ychwanegiad rhagorol i`r Cylch ac yn fantais cadarnhaol i`r plant. Yn ogystal, mae`n dangos y cyd-weithrediad rhwng y Cylch, rhieni a`r gymuned. Drwyddi draw, mae`r cynllunio wedi sicrhau gwelliant yn seiliedig ar flaenoriaethu meysydd i`w gwella, strategaethau ar gyfer gwelliant a chefnogaeth pawb sy`n ymwneud â`r Cylch.

Mae`r staff wedi mynychu amrywaieth eang o gyrsiau hyfforddi datblygiad proffesiynol ac mae`r holl leoliad wedi elwa sy`n amlwg yn y cynnydd a wneir gan y plant. Mae parch mawr i`r arweinydd sydd wedi bod yn ddylanwadol wrth gynghori lleoliadau eraill yn yr Awdurdod Lleol.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Rhagorol**

Mae gan y Cylch gysylltiadau da iawn â rhieni, a thrwy drafodaeth, dengys eu bod yn hollol gefnogol o`r Cylch ac yn ei werthfawrogi. Ar wahan i gysylltiadau anffurfiol â`r staff, mae`r Cylch yn rhoi gwybodaeth i`r rhieni yn rheolaidd mewn ffurf cylchlythyr. Mae`r rhieni hefyd wedi cael cyfleoedd i wneud sylwadau ac ymateb i holiaduron a ddosbarthwyd llynedd. Cysylltir â rhieni hefyd os ydy`r Cylch yn amau fod gan blentyn ADY a`r ddarpariaeth sydd angen.

Mae cysylltiadau da yn bodoli ac yn datblygu rhwng y Cylch â`r ysgolion cynradd lle mae`r plant yn trosglwyddo. Mae`r plant yn ymweld â`r ysgol leol cyn symud yno ac ar adegau eraill fel cyngherddau.

Mae`r Cylch yn cael ei adnabod gan yr Awdurdod Lleol fel un sydd ag ymarferion sydd werth eu rhannu ac wedi ei nodi fel enghraifft o arfer dda o fewn yr awdurdod sy`n haeddu lledaeniad ehangach.

Mae`r rhain yn cynnwys:

(i) cynllunio ar gyfer dysgu`r plant;
(ii) defnydd o asesu i gynllunio gweithgareddau;

(iii) arweinyddiaeth;
(iv) cynllunio ar gyfer gwelliant;
(v) trefnu ardaloedd gweithgareddau
(vi) trafodaeth cyn AGGCC.

Mae hyn yn dangos bod gwaith y Cylch yn enghraifft o ddarpariaeth o ansawdd uchel sydd wedi bod yn ddylanwadol o fewn y sector. Rhannwyd arbenigedd tebyg yn lleol mewn modd effeithiol o fewn yr Awdurdod Lleol a chan Fudiad Ysgolion Meithrin.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae`r holl staff yn ymwybodol iawn o`u rolau a`u cyfrifoldebau ac yn ymgymryd â`u tasgau â synnwyr o fwynhad. Mae`r staff yn dangos ymrwymiad llawn â`u rolau ac yn defnyddio amrywiaeth dda o adnoddau yn llwyddiannus i gymell y plant i ddysgu. Mae`r staff bob tro`n chwilio am ffyrdd o herio`r plant a gwneud y defnydd gorau o achlysuron a digwyddiadau fel trefnu ymweliad yn yr awyr agored yn ystod yr arolygiad i weld ffurfiant iâ a chlychau rhew.

Drwyddi draw, mae adnoddau yn cael eu defnyddio`n dda i gymell y plant, i ymestyn eu profiadau ac i ddatblygu eu medrau meddwl. Mae`r Cylch yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Dim ond un ymateb cafodd ei ddychwelyd a oedd yn cytuno`n llwyr â`r holl ddatganiadau. Fodd bynnag, mewn trafodaeth â sampl o rieni yn ystod yr arolygiad, roedd pob un yn siarad am eu boddhad llwyr â`r Cylch. Yn enwedig, roeddent yn gwerthfawrogi`r polisi "drws agored", ei bod yn hawdd mynd at y staff, y wybodaeth a roddwyd iddynt a`r gefnogaeth a roddwyd i`r plant. Roedd pob rhiant wedi gwneud sylwadau ar y cynnydd da iawn roedd y plant yn ei wneud, yn enwedig yn eu datblygiad yn yr iaith Gymraeg.

Roedd nifer o rieni yn falch iawn ag ymddygiad eu plant ar ôl iddynt ddechrau yn y Cylch a`r gefnogaeth roedd plant ag ADY yn ei derbyn. Soniodd rhieni o ddisgwyliadau uchel y Cylch o`r plant yn nhermau agwedd ac ymddygiad.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Roedd llawer o`r plant yn hapus i siarad â`r ymwelydd ac yn mynegi eu mwynhad o`r gwaith roeddent yn ei wneud. Roeddent yn mwynhau`r dewisiadau rhydd ac yn mwynhau mynd tu allan yn enwedig. Roedden nhw`n mwynhau cwrdd â`u ffrindiau ac mewn un achos yn siomedig nad oedd y Cylch ar agor ar Ddydd Gwener.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)